## Gweddi adeg y Grawys

Dros ddeugain dydd a deugain nos bu dy Unig-anedig Fab, O Dduw graslon, yn gweddïo ac yn ymprydio yn niffeithwch Jwdea i'w baratoi ei hun ar gyfer ei waith achubol yn y byd. Bendithia ninnau, dy ddisgyblion, mewn dyddiau sy'n galw am ymroddiad meddwl a chorff, yn arbennig yn nhymor y Grawys wrth i ni geisio efelychu Iesu yn ei ymgysegriad a'i ddisgyblaeth.

Wrth i ni ein paratoi ein hunain i ddilyn ôl traed ein Harglwydd a'n Gwaredwr i Jerwsalem, i Gethsemane, i Galfaria ac i fuddugoliaeth y Pasg, rho i ni yn ein bywyd Cristnogol y ddisgyblaeth honno a'n gwna ni weiniaid yn yr Ysbryd yn ddilynwyr teilwng i'th 'Annwyl Fab dy hun'.

Rho i ni ddisgyblaeth dros ein meddyliau, fel y gwrthodwn ystyried yr aflan a'r gau, a rhoi ein holl feddwl ar yr hyn sy'n wir, yn gyfiawn, yn hawddgar, ac yn gyforiog o drysorau'r Deyrnas. Rho i ni ddisgyblaeth dros ein cyrff, fel y dysgwn feistroli pob chwant a gorchfygu pob temtasiwn, a dod yn demlau addas i'th Ysbryd Glân.

Rho i ni hefyd ddisgyblaeth dros ein lleferydd, ac arbed ni rhag llefaru'r gair creulon a chableddus, fel y ceisiwn ar bob amgylchiad fod yn gymedrol a meddu ar wefus bur.

Rho i ni ddisgyblaeth yn ein gwaith beunyddiol, fel y gochelwn rhag pob diogi a diofalwch, a cheisio bob amser gyflawni d'ewyllys di yn ein holl orchwylion fel gweithwyr da a diwyd yn y gymdeithas.

Rho i ni ddisgyblaeth yn ein defosiwn, fel y byddwn yn ffyddlon mewn addoliad ac yn gyson mewn gweddi, gan roi amser bob dydd – ar ddechrau'r dydd neu ganol dydd, neu cyn gorffwys – i ddarllen y Gair a gweddïo'n ddilys.

O ddilyn Iesu yn ei hunanobaith a rhannu yng nghymdeithas ei ddioddefiadau, gad i ni hefyd gyfranogi o lawenydd ei fuddugoliaeth fawr ar y Groes ac yn yr Ardd, er mwyn ei enw. Amen.